

Y newyddlen ar gyfer pobl sy'n ymwneud â dehongli yng Nghymru

**Yn y rhifyn hwn**  
**In this issue**

Migration Stories  
**Straeon am Ymfudo**

Sustainable Interpretation  
**Dehongliad Cynaliadwy**

Walking with the Romans  
**Cerdded gyda'r Rhufeiniaid**


# Dehongli Cymru

## Interpret Wales

Gwanwyn Spring  
2016 rhifyn issue

The newsletter for people working in interpretation in Wales

22



## DEHONGLI CYMRU/INTERPRET WALES

Rhifyn 22 Gwanwyn 2016

Cyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru  
ar ran Grŵp Llywio Dehongli Cymru.

Golygydd: Ruth Waycott

Dylunio: Olwen Fowler

Argraffwyd gan: Gwasg Gomer Cyf

Gwasanaethau Cyfieithu: Cyfieithu Cymunedol

Nod Dehongli Cymru yw ennyn brwdfrydedd y cyhoedd  
tuag at ein treftadaeth naturiol a diwyllianol drwy gyfrwng  
dehongli o'r safon uchaf, a chynorthwyo dehonglwyr  
drwy rwydweithio, hyfforddiant a rhannu arfer da.

Mae'r prosiect dan ofal Grŵp Llywio a gynrychiolir  
gan yr asiantaethau sydd a'u logos yn ymddangos isod.

## Cynnwys

### 4-5 YNO, rhyfel, YMA, lloches

Stephanie Roberts

### 8 Tua'r Gorllewin

Stuart Evans

### 10-11 Cerdded gyda'r Rhufeiniaid

Suzanna Jones

### 14 EwrOlwg: Cymru drwy Llygaid Teithwyr Ewropeaidd, 1750-2015

Dr. Rita Singer

### 16-17 Dehongli cynaliadwy:

#### Gwersi o Dwristiaeth Gynaliadwy

Gianna Moscardo

### Angen cysylltu â ni?

Ysgrifenyddiaeth Interpret Wales /  
Dehongli Cymru

Ruth Taylor Davies

lethaconsultancy@gmail.com

ffôn: 01792 881762

Newyddlen Interpret Wales / Dehongli Cymru

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

ffôn: 01600 860779

### Llun y clawr:

Gwaith Celf o'r prosiect 'Yno, Rhyfel, Yma, Lloches'.

# Gwlad noddfa?

**M**ae taith pobl ar draws y cyfandiroedd a'r moroedd yn hen hanes sy'n parhau i ddigwydd hyd heddiw. Alltudion ac archwilwyr, hipis, anturwyr, ceiswyr lloches, mewnfudwyr economaidd a ffoaduriaid - maen nhw i gyd wedi dod o hyd i noddfa, ac yn aml, i gyfleoedd yma yng Nghymru. 100 mlynedd yn ôl roedd storïau am ffoaduriaid yn llenwi papurau newydd Cymru wrth i'r Rhyfel Byd Cyntaf achosi'r mewnlifiad mwyaf o ffoaduriaid yn hanes Prydain. O'r 250,000 o ffoaduriaid o Wlad Belg a ddaeth o hyd i ddiogelwch ym Mhrydain, roedd dros 5,000 ohonyn nhw wedi dod i Gymru. Ym mis Hydref 1914 fe adroddodd y papur newydd lleol ym Mhorthcawl am 'ruthr y bobl' wrth i ddinas Antwerp syrthio i'r Almaenwyr. Roedd y papur yn disgrifio sut y bu i'r ffoaduriaid oedd yn dianc oddi yno 'gysgodi mewn cerbydau ymdrochi yn Ostende' a chael eu gosod ar drenau a chychod 'fel sardîns'. Bu i araith David Lloyd George ar hawliau cenhedloedd bychain daro tant ymysg y Cymry. Fe gynigodd llawer o drefi a dinasoedd roi croeso i ffoaduriaid o Wlad Belg. Roedd Porthcawl yn unigryw gan i'w gymuned ffoaduriaid ddatblygu'n fuan iawn i fod yn hunangynhaliol. Fe roddodd y bobl leol bren, offer a gweithdy er mwyn i'r seiri dodrefn o Wlad Belg allu gweithio a gwerthu eu dodrefn er lles y ffoaduriaid.

Mae cofnodion Pwyllgor Ffoaduriaid Rhyfel Abertawe yn dangos fod arfer cyffredin o doddi sinc wedi ei gwneud hi'n haws i bobl y ddinas dderbyn y ffoaduriaid. Yn y 1840au roedd meistri copr Abertawe wedi recriwtio Belgiaid medrus fel 'gweithwyr sinc' ac roedd cymuned Felgaidd gweddol fawr yn Abertawe erbyn cyfnod y Rhyfel. Roedden nhw wedi cymhathu'n dda, ond wedi parhau i gadw cysylltiadau cryf gyda 'chartref'. O'r 762 o ffoaduriaid rhyfel yn Abertawe, dim ond 6 a fethodd â dod o hyd i waith. Cafodd llawer eu cyflogi yn y gwaith sinc, gan gynnwys torwyr diemwnt o Antwerp a barnwr uchel lys.

Bu i'r chwirydd dyngarol, Gwendoline a Margaret Davies, helpu artistiaid a chyfansoddwyr o Wlad Belg, ynghyd â'u teuluoedd, ddianc i Gymru. Roedden nhw'n gobeithio y byddai'r Belgiaid yn ysbrydoli artistiaid Cymreig ac yn cyfoethogi diwylliant Cymru. Ond mewn gwirionedd, Cymru wnaeth ysbrydoli a chael dylanwad mawr ar beintwyr Gwlad Belg ac mae llawer o'u gweithiau i'w gweld yn ein horielau celf heddiw.

Yn ystod y Rhyfel roedd rhaid i Brydain helpu ffoaduriaid, ond yn dilyn heddwch daeth cyfnod newydd. Am gyfnod cyfyngedig, roedd y llywodraeth yn dosbarthu tocynnau un ffordd i Wlad Belg er mwyn annog y ffoaduriaid i ddychweled adref. Roedd Prydain yn ceisio gwthio'r ffoaduriaid o'r ynys cyn gynted â phosib ac roedd hynny'n addas iawn ar gyfer llywodraeth Gwlad Belg oedd angen y bobl er mwyn ailadeiladu'u gwlad.

Yn y rhifyn hwn rydym ni'n edrych ar brosiectau Cymreig sydd wedi eu hysbrydoli gan symudiadau pobl, o'r goresgynwyr Rhufeinig y mae eu gwerylloedd cyrch i'w gweld o hyd yn nhirwedd Cymru, i ddyfodiad parhaol ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n chwilio am ddiogelwch yma. Mae hon yn thema sy'n sicr o ennyn ymateb. Fe wna i orffen gyda geiriau Bob Shaw, oedd wedi symud i Dywyn o Surrey yn 1968 yn ystod 'mewnlifiad yr hipis' i ganolbarth Cymru. Gobeithio bydd ffoaduriaid 2016 yn dod o hyd i ychydig o'r hyn a ddaeth o ar ei draws:

*'Ar fy niwrnod cyntaf i'n byw yma yn y dyffryn hardd hwn, mi es i fynd ar y ffridd, gorwedd ar lawr, claddu fy nhrwyn yn y glaswellt mwsoglyd ac anadlu i mewn am oes. Mwsog, ffyngau, defaid, bugeiliaid, brenhinoedd Celtaidd, iaith, hen gerrig, gwynt, glaw, haul, boda, cigfran, brân goesgoch, corhedydd y waun, ehedydd, gwartheg du Cymreig, derwen, onnen, draenen wen, coeden griafol – profiad o gael eich aileni'n llwyr!'*

Ruth Waycott, Golygydd

# A land of refuge?

**T**he passage of people, across continents and oceans, is an ancient and on-going story. Exiles and explorers, hippies, adventurers, asylum seekers, economic migrants and refugees – all have found sanctuary, and often, opportunity in Wales.

100 years ago refugee stories filled Welsh newspapers, as the outbreak of World War I caused the largest refugee influx in British history. Of the 250,000 Belgians who found safety in Britain more than 5,000 came to Wales. In October 1914 the local newspaper in Porthcawl reported on the 'human stampede' as the city of Antwerp fell to the Germans, describing how the fleeing refugees 'took shelter in bathing machines at Ostende' and were packed into trains and boats 'like sardines'.

A speech by David Lloyd George on the rights of small nations struck a chord with Welsh people. Many towns and cities offered to take Belgian refugees. Porthcawl was unique in that its refugee community soon became self-supporting. Wood, tools and a workshop were donated, enabling Belgian cabinet makers to work and sell their furniture for the benefit of the refugees.

The records of the Swansea War Refugee Committee show that a shared history of zinc smelting made it easier for the refugees to be accepted in the city. In the 1840s Swansea's copper masters had recruited skilled Belgians as 'speltermen' and there was a sizeable Belgian community in Swansea when war broke out. They had assimilated well whilst keeping strong links with 'home'. Of the 762 war refugees in Swansea only 6 failed to find work. Many were employed in the spelterworks, including diamond-cutters from Antwerp.

Belgian artists, composers and their families were helped to escape to Wales by the philanthropic Davies sisters, Gwendoline and Margaret. They hoped the Belgians would inspire Welsh artists and enrich Welsh culture. In fact, it was Wales which had a profound and inspiring influence on the Belgian painters and many of their paintings grace our art galleries today.

Britain had an obligation to help refugees during wartime, but peace heralded a new era. For a limited period the government issued one-way tickets to Belgium, to encourage refugees to return home. It suited the Belgian government that the refugees were pushed out of Britain as quickly as possible. They were needed to rebuild their country.

In this issue we look at Welsh projects which have taken the movement of people as their inspiration, from the Roman conquerors whose marching camps can still be found in the Welsh landscape, to the ongoing arrival of refugees and asylum seekers looking for safety here. It's a theme that's guaranteed to provoke a reaction. I'll leave you with the words of Bob Shaw, who moved to Tywyn from Surrey in 1968 during the 'hippy invasion' of mid Wales. Let's hope the refugees who arrive in 2016 find at least a little of what he discovered:

*'On the first day of residence in this beautiful valley, I went up on the 'ffridd,' lay on the ground, buried my nose in the mossy turf and breathed in forever. Moss, fungi, sheep, shepherds, Celtic kings, language, ancient rock, wind, rain, sun, buzzard, raven, chough, meadow pipit, skylark, Welsh blacks, oak, ash, hawthorn, rowan – a complete rebirth experience!'*

Ruth Waycott, Editor

## INTERPRET WALES/DEHONGLI CYMRU

Issue 22 Spring 2016

Published by Natural Resources Wales on behalf  
of the Dehongli Cymru/Interpret Wales Steering Group.

Editor: Ruth Waycott

Design: Olwen Fowler

Printed by: Gomer Press Ltd

Translation services: Cyfieithu Cymunedol

Interpret Wales/Dehongli Cymru aims to enthuse the public  
about our natural and cultural heritage through interpretation  
of the highest quality, and to support interpreters by  
networking, training and sharing good practice.

The project is run by a Steering Group representing  
the agencies whose logos appear below.

## Contents

### 6-7 THEN situation, NOW circumstance

Stephanie Roberts

### 9 Towards the West

Stuart Evans

### 12-13 Walking with the Romans

Suzanna Jones

### 15 EuroVisions: Wales through the Eyes of European Visitors, 1750-2015

Dr. Rita Singer

### 18-19 Sustainable Interpretation: Lessons from Sustainable Tourism

Gianna Moscardo

### Need to contact us?

Interpret Wales / Dehongli Cymru Secretariat  
Ruth Taylor Davies

lethaconsultancy@gmail.com

tel: 01792 881762

Interpret Wales / Dehongli Cymru Newsletter

Ruth Waycott

ruth@waycott.fsnet.co.uk

tel: 01600 860779

Front cover image: Artwork created by  
Marion Cheung's workshop at the Sanctuary Project as  
part of 'Then situation, Now circumstance' in Newport.



# YNO RHYFEL YMA LLOCHES

Mae Casnewydd yn gartref i tua 150 ceisydd lloches a 1000 o ffoaduriaid. Wrth i'r ddinas baratoi at groesawu mwy o ffoaduriaid o Syria, mae **Stephanie Roberts** yn edrych yn ôl ar brosiect 'Then & Now' (YNO ac YMA) a gynhaliwyd yn y ddinas yn ysgol Wythnos Ffoaduriaid Cymru 2015.

**B**wriad prosiect 'Yno ac Yma' oedd dysgu pobl am fywyd ffoaduriaid, drwy ymchwilio sut brofiad yw gorfod codi eich gwreiddiau a gadael eich cartref i fyw mewn amgylchiadau anghyfarwydd er mwyn eich diogelwch. Bu pedwar artist yn gweithio gyda dau griw o ffoaduriaid a cheiswyr lloches o lefydd pell megis Malaysia, Sri Lanca, Irac, Eritrea ac Wganda. Roedd yr artistiaid yn gofyn i'r bobl rannu eu straeon a sôn am eu teithiau. Roedd llawer o'r straeon yn codi braw, yn sôn am eu hymdrechion i gadw'n ddiogel, yn fyw a dianc o sefyllfaoedd ble

roedd dinistr a gynnau'n saethu'n brofiad beunyddiol. Bu i un ddynes sôn am drais ac roedd y syniad o fynd yn ôl yn codi arswyd arni. Straeon y bobl hyn oedd ysbrydoliaeth y gwaith celf a'r perfformiadau'r prosiect; maen nhw'n dangos y daith o 'Yno' i 'Yma'. Bu inni gynnal gweithdai rhyngweithiol ble câr gynulleidfa gyfrannu a chreu gwaith celf, rhannu hanesion, dysgu ac uno drwy gysgod i ddenu cynulleidfaoedd i gymryd rhan, ac roedd gwaith celf gan bobl o bob oedran ar ddangos fel rhannau o ddarluniau ac yn rhan o'r arddangosfa. Bûm i'n



Defnyddia'r artist **Steven George Jones** enw, cyfeiriad a'r pellter a deithiwyd i gyrraedd Casnewydd yn ei waith celf. Artist **Steven George Jones** incorporates the individual's name, home and distance travelled to get to Newport in their artwork.

'O Irac i Gasnewydd'. Mae'r neges yn portreadu profiad gwneud y gwaith celf hwn gyda **Stephanie Roberts** a gweithwyr y prosiect **Noddfa**. Dydy hi ddim yn hawdd goresgyn rhwystrau iaith. 'Iraq to Newport'. The message portrays the experience of making this artwork with **Stephanie Roberts** and Sanctuary project individuals.

gweithio gyda grŵp merched **Ta'aleem Alyssa** ac yn defnyddio thema 'Hedfan'. Mynegodd y merched eu profiadau o orthrwm ac erledigaeth a arweiniodd rhai i ffoi eu gwledydd. Yn **Oriel Llawr Isaf Canolfan Glan yr Afon** yng Nghasnewydd, cynhaliodd yr artistiaid brofiad cyffwrdd, yn dechrau gyda pherfformiad o gyfres o straeon symudol gan bobl sy'n ceisio lloches. Drwy gerdd, perfformiad byw, pypedau cysgod a chelf, buom yn archwilio realiti gadael eich anwyliaid er mwyn byw mewn llaw o fraw. Wedi hyn roedd cyfle i'r gynulleidfa



Gweithdy'r **Noddfa: Paentio gartref, roedd y gŵr hwn yn artist cyn iddo ffoi.** Sanctuary workshop. Painting home, this gentleman was an artist before he became a Refugee.

Roedd hynny'n ei gwneud hi'n haws rhannu. Roeddwn i'n meddwl ei bod yn drawiadol fel yr oedd y grwpiau'n cael cyfle i fod yn rhan o'r broses greadigol. Rheswm y llwyddiant oedd ffordd yr artistiaid o groesawu'r bobl. Cawsom nhw groeso cynnes a phrofiad pwysig. Mae hyn yn amlwg wrth weld cymaint yr oedden nhw'n cydweithio. Roedd y prosiect yn rhoi sylw i'w gwreiddiau, iaith ac yn dangos lluniau o lefydd pwysig iddyn nhw gartref. Roedd y cysylltiad cyson rhwng gwreiddiau'r bobl a bod yma yng Nghasnewydd yn cyfleu eu taith yma. Llwyddoch chi i'w 'faethu' nhw, sy'n beth prin. Bydd y 'maethu' yma'n rhoi gobaith ac yn helpu pobl deimlo fod Casnewydd yn rhywle y gallant aros yno a chwrrd â phobl sy'n deall eu hymdrechion.'

Prosiect gan **Gyngor Ffoaduriaid Cymru a ariannwyd gan Gyngor Celfyddydau Cymru a Llywodraeth Cymru ac a'i cynhaliwyd gan Lan yr Afon** mewn cydweithrediad â'r **Groes Goch Brydeinig, Noddfa a'r Clwstr Canolog (Cymunedau'n Gyntaf)**. Y pedwar artist oedd **Stephanie Roberts, Justin Cliffe (Tin Shed Theatre), Steven Jones a Marion Cheung**.



**Dyma ymwelydd yn darllen y geiriau: 'Mewn rhyfel, â pobl i'w tranc'.** Visitor to the exhibition reading the words 'During the war people die'.

grwydro a darganfod y gwaith celf unigryw. Roedd darluniau, cerfluniau, gwaith animeiddio ffilm a phrintiau haul yn mynegi cyfres o straeon dwys a chymhleth. Roedd ffilm am hanes **Benson Wereje**, ffoadur o'r

**Congo, Fork In The Road**, yn ysbrydoliaeth deimladwy iawn. Ynghyd â'r darluniau, printiau a'r cerfluniau, roedd yn ychwanegu teimlad o symud ac egni i'r arddangosfa tra roedd yn adrodd hanes trist ond un gadarnhaol.

Fel cydweithrediad o artistiaid, rydym yn ceisio creu gwaith parhaol sy'n addysgu ac yn chwlu'r camddealltwriaeth a geir yn aml o ffoaduriaid a cheiswyr lloches sy'n byw yn ne Cymru heddiw. Rydym ni'n bwriadu parhau i gysylltu â ffoaduriaid a'u gwneud yn rhan o'n gwaith. Drwy'r cysylltu yma, rydym yn gobeithio rhoi llais iddyn nhw yn ein cymuned, a syniad gwell o bwrpas a nod yn y gymdeithas.

A fuom ni'n llwyddiannus gyda phrosiect 'Yno ac Yma'? Dyma adborth gan **Daniilo Padilha, Gweithiwr Datblygu Cymuned Cymunedau'n Gyntaf Cyngor Dinas Casnewydd**: 'Mae'n cymryd amser hir cyn y mae'r bobl rydw i'n gweithio â nhw'n teimlo eu bod nhw'n perthyn. Mae cydweithio yn eich prosiect chi'n creu rhyw deimlad o berthyn yn syth bin.

Mae **Stephanie Roberts** yn **Artist Mosaic yng Nghasnewydd a hi oedd Cynhyrchydd Celfyddydol 'Yno ac Yma'** e. [info@stephanierobertsart.com](mailto:info@stephanierobertsart.com) [www.stephanierobertsart.com](http://www.stephanierobertsart.com)

Bydd **Wythnos Ffoaduriaid 2016** yn dechrau ar yr **20fed o Fehefin (Diwrnod Ffoaduriaid y Byd)** ac yn parhau tan y **26ain o Fehefin**. Mae **Wythnos y Ffoaduriaid** yn arlwy o ddigwyddiadau celfyddydol, diwylliannol ac addysgol drwy Brydain sy'n datlu cyfraniad ffoaduriaid i Brydain ac yn annog dealltwriaeth well rhwng cymunedau. Mae'r **Groes Goch** yn chwarae rôl bwysig yn y digwyddiad yn ogystal â gweithio i gefnogi ffoaduriaid bregus a cheiswyr lloches a helpu iddyn nhw arfer â bywyd ym Mhrydain. Mae hyn yn cynnwys prosiectau i helpu pobl ddysgu am fywyd yn y lle maen nhw'n byw ynddo yn ogystal â gwirfoddoli a chyfluoedd dysgu a all arwain at waith.

# THEN SITUATION NOW CIRCUMSTANCE

Newport is home to about 150 asylum seekers and 1000 refugees. As the city prepares to welcome more refugees from Syria, **Stephanie Roberts** looks back at the 'Then & Now' art project, held in the city during Welsh Refugee Week 2015.

The 'Then & Now' project aimed to develop people's understanding of what it is like to be a refugee, by exploring what it means to be uprooted from your home country and live in unfamiliar conditions, so as to be safe from harm. Four artists worked with two groups of refugees and asylum seekers from places as distant as Malaysia, Sri Lanka, Iraq, Eritrea and Uganda. The artists invited participants to share their stories and journeys. Many stories were terrifying, desperate attempts at staying safe, staying alive and escaping environments where destruction and gun fire are commonplace. One story was about rape and the lady was horrified by the thought of being sent

back. The artworks and performances that took place are the result of these individual stories, depicting journeys from their 'Then' situation to their 'Now' circumstances.

We ran interactive workshops which allowed audience participation, where people could create artwork, share stories, learn and unite through creative engagement. Shadow art was choreographed to entice audiences to participate and individual art works, created by all age groups, were placed onto paintings and displayed as a part of the overall exhibition. I worked with the Ta'aleemAlnyssa women's group using the theme of 'Flight'. The women expressed their experiences of fleeing from persecution through painting,

Mam a merch yn gwyllo ffilm Benson Wereje, 'Fork in the Road' yn y brif oriel.

Benson Wereje's film 'Fork in the Road' being watched by a mother and a daughter in the Main Gallery.



sculpting and model making. This was also an opportunity to share experiences around the oppression and persecution which led some of the attendees to escape their home countries.

In the Basement Gallery of Newport's Riverfront Centre the artists curated an immersive experience, beginning with a performance of a series of moving stories told by people seeking refuge. Through poetry, live performance, shadow puppetry and art we explored the reality of leaving the people you love to live a life of less fear. Afterwards audiences were invited to explore the space and discover each piece of unique art. Painting, sculpture, film animation and solar prints led through a multi-layered series of stories. A film of Congolese refugee Benson Wereje's story, *Fork In The Road* was both inspiring and deeply moving. Alongside the paintings, prints and sculptures it brought a sense of movement and energy to the exhibition while telling a tragic but positive story.

As an artist-collective we aspire to



Animeiddio pypedau a pherfformio.

Live puppetry animation and performance.

Adar yn aros yn eu 'cartref' uwchlaw adran 'YNO'.

Birds perch contentedly above a 'home' THEN environment.



create permanent pieces of work that educate and break down the common misconceptions of refugees and asylum seekers living in south Wales today. We aim to continue engaging with and integrating refugees into our work. Through this interaction we hope to offer them a voice within our community, and a larger sense of purpose and direction within society.

Did we succeed with 'Then & Now'? This was feedback from Danilo Padilha, a Community Development Worker with Communities First at Newport City Council: 'It takes a long time before the people I work with feel a sense of belonging. Being involved in your activity creates an almost immediate sense of belonging and acceptance. It makes sharing easier. I thought it was remarkable that these groups were given the opportunity to be part of the creative process. The secret was the artists' way of making them feel welcome. They received a very warm friendly welcome and a meaningful experience. You can see that by how engaged they were. It was a

celebration of where they were from, their language and images of places that are very dear to them back at home. There was a constant connection between people's roots and being here in Newport, conveying their journey coming here. What you managed to provide was 'the nurturing', which is rare. It's that nurturing that will give hope and enable people to feel that Newport is a place they can stay and meet people who truly understand their struggles.'

'Then & Now' was an Arts Council of Wales & Welsh Government funded event by the Welsh Refugee Council, hosted by the Riverfront in collaboration with The British Red Cross, Sanctuary and Central Cluster (Communities First). The four artists were Stephanie Roberts, Justin Cliffe (Tin Shed Theatre), Steven Jones and Marion Cheung.

Stephanie Roberts is a Newport-based Mosaic Artist and the Artist Producer of 'Then & Now'. e. [info@stephanierobertsart.com](mailto:info@stephanierobertsart.com) [www.stephanierobertsart.com](http://www.stephanierobertsart.com)

Darlun rhyngweithiol Marion Cheung, 'Adar ar Wifren'. Torrodd y gynulleidfa siapiau adar a'u rhoi ar y wifren. Hedfanodd yr adar yma ymaith, ond dewisodd rhai ar ddarnau eraill aros.

Marion Cheung's 'Bird on a Wire' interactive painting. Birds were cut out and placed on by the audience. These birds chose to fly away, on other pieces the birds are perched.

Refugee Week 2016 starts on 20 June (World Refugee Day) and runs to 26th June. Refugee Week is a nationwide programme of arts, cultural and educational events celebrating the contribution of refugees to the UK, and encouraging better understanding between communities. The Red Cross plays a key role in this event as well as supporting vulnerable refugees and asylum seekers and helping them settle in to UK life. This includes projects to help people find out about life in the place they are living, as well as volunteering and learning opportunities which may lead to employment.


# TUA'R GORLLEWIN

Nid y ffoaduriaid mewn modd sydd wedi taro'r penawdau yn 2016, ond yn hytrach yr hipis a symudodd i Geredigion yn y 1970au i chwilio am fywyd newydd. Fe wnaeth y symudiad hwn o bobl – 'mewnlifiad yr hipis i ganolbarth Cymru' – ddarparu adnoddau cyfoethog ar gyfer arddangosfa yn Amgueddfa Ceredigion. Mae **Stuart Evans** (a ddychwelodd i Gymru o Lundain yn 1978) yn adrodd yr hanes.

**R**oedd Jez Danks, fy nghydweithiwr yn Amgueddfa Ceredigion, wedi bod yn chwilio am ffordd o gofnodi profiadau pobl a fu'n mewnfudo i ganolbarth Cymru yn ystod y 1970au. Fe ddaeth o Swydd Warig yn 1971. Gofynnodd Jez i bobl o le roedden nhw'n dod, pam eu bod wedi dod a beth wnaethon nhw unwaith roedden nhw yno. Y syniad oedd cyfyngu'r atebion yn rhai byrion ond roedd rhai atebion yn fwy na deg tudalen! Yr hyn a ddaeth o'i ymchwil oedd cyfoeth o wybodaeth am gyfnod o obaith a chreadigedd. Fe ddaeth pobl gydag egni a dyfeisiau. Roedden nhw wedi dysgu hen ddulliau o ffermio ond wedi addasu i ffyrdd newydd o fyw. Roedd rhyddid ynglŷn â'r ffordd roedd pobl yn gwneud pethau, i ffwrdd o gyfyngiadau bywyd trefol.

Gyda digon o ddeunydd, fe greodd Jez arddangosfa a llyfr o'r enw – 'Tua'r Gorllewin' – sy'n sôn am drafferthion a llawenydd y mewnfudwyr hyn yn y 1970au. Edrychodd Jez ar themâu yn ogystal â storïau personol. Pam roedd gormod o dai a thir rhad? Mae'r ffarmwr leuan Parry yn cofio, 'Doedd Cymry ifanc ddim eisiau byw yn y wlad... Mewn un achos, lle'r oedd ffarmwr lleol wedi prynu 14 o dai bychain, dim ond un o'r tai gafodd ei werthu i Gymry lleol.' Mae'r gwerthwr llyfrau Gwilym Tudur yn cofio sut 'roedd popeth yn newid yn y 70au yng Ngheredigion. Fe welsom ni'r genhedlaeth olaf o bobl oedd fwy neu lai yn siaradwyr Cymraeg uniaith.'

I'r rhai oedd yn chwilio am fywyd gwahanol i fywyd y ddinas a gwaith swyddfa, roedd canolbarth Cymru yn cynnig ffordd arall o fyw. Roedd pobl eisiau tyfu eu llyisiau eu hunain, cadw geifr ac ier



Philip Thornely gyda gafr!  
Philip Thornely and goat!

a rhoi cyfle i'w plant dyfu yn yr awyr agored. Roedd hyn yn apelio at Oksana Hurcal a ddaeth i Aberarth o Gaerlŷr yn 1973:

*'Roeddwn i'n dyheu am fagu fy merch yn awyr agored y wlad. Roedd gen i'r... syniad mod i'n gallu cyflawni fy mreuddwydion allan yma, ac rydw i wedi gwneud hynny. Disgynnais mewn cariad, a chyda'n gilydd fe ddaethon ni â thŷ gwag yn ôl yn fyw, lle rydym ni wedi byw yn rhydd ac ar ein liwt ein hunain. Wrth ymyl ysgol bentref hyfryd, mewn cymuned gyfeillgar a llewyrchus, mae byw yma wedi cyflawni fy ngobeithion o fyw bywyd artistig a gwahanol ac rydw i'n diolch i'r drefn am hynny.'*

Wedi ei ddadurthio gan ddinistr amgylcheddol a natur ungrwd ffermio modern, roedd ar Bob Shaw eisiau gael blas ar ffermio mynydd gan ddefnyddio hen dechnegau traddodiadol, ac felly fe symudodd o Surrey i Dywyn yn 1968:

*'Ar fy niwrnod cyntaf i'n byw yma yn y dyffryn hardd hwn, mi es i fyny ar y ffridd, gorwedd ar lawr, claddu fy nhrwyn yn y glaswellt mwsoglyd ac anadlu i mewn am oes. Mwsoglyd, ffyngau, defaid, bugelliad, brenhinoedd Celtaidd, iaith, hen gerrig, gwynt,*



Lluniau o 'Tua'r Gorllewin'.  
Photos from 'Towards the West'.



Cyfaill i Tim Strang yn defnyddio'r twb golchi.  
A friend of Tim Strang using the washtub.

*glaw, haul, boda, cigfran, brân goesgoch, corhedydd y waun, ehedydd, gwartheg du Cymreig, derwen, onnen, draenen wen, coeden griafol - profiad o gael eich aileni'n llwyr!'*

Bu i'r bardd lleol, John Roderick Rees ddal naws yr amser yn ei gerdd 'Llygaid' a enillodd y goron yn yr Eisteddfod Genedlaethol yn 1984. Mae'n disgrifio'r angen am ffordd o fyw newydd yn y wlad ac am dderbyn y newidiadau: 'Gwell gwegi estron na'r gwacter gwyrdd'. Fe wnaeth ei gerdd ysbrydoli llawer o'r syniadau cychwynnol oedd y tu ôl i arddangosfa 'Tua'r Gorllewin'.

Felly os ydych chi am ymgolli mewn atgofion o'r dyddiau byrbwyll hynny, beth am oleuo ffon thus a thro'i tudalennau copi o 'Tua'r Gorllewin'?

Stuart Evans  
e. [museum@ceredigion.gov.uk](mailto:museum@ceredigion.gov.uk)

Mae copiâu o 'Tua'r Gorllewin' ar gael o Amgueddfa Ceredigion.

# TOWARDS THE WEST

Not refugees in the headline-hitting sense of 2016, yet the hippies who moved to Ceredigion in the 1970s were searching for a new life. This movement of people – the 'hippy invasion of mid Wales' – provided rich pickings for an exhibition at Ceredigion Museum. **Stuart Evans** (who returned to Wales from London in 1978) takes up the story.



Oksana Hurcal a'i merch Grace.  
Oksana Hurcal and her daughter Grace.

*only one of the houses was bought by local Welsh people.' Bookseller Gwilym Tudur remembered how, 'everything was changing in seventies Ceredigion. We saw the last generation of people who were more or less monolingual Welsh speakers.'*

For those seeking an alternative to city life and office work mid Wales offered another way of living. People wanted to grow their own vegetables, keep goats and chickens and give their children a chance to grow in the open air. This appealed to Oksana Hurcal who came to Aberarth from Leicester in 1973:

*'I longed to bring up my daughter in the beautiful open space of the countryside. I had... the idea that I could live out my dreams here, and I have. I fell in love, and together we brought a derelict house back to life, where we have lived off-grid. Near to a wonderful village school, in a thriving and friendly community, living here has fulfilled my hopes of an artistic, alternative lifestyle. I thank my lucky stars every day.'*

Disenchanted with the monoculture and environmental destruction of modern farming, Bob Shaw wanted to experience

Uchod: Tim Strang.  
Above: Tim Strang.

Ar y dde: Oksana a Grace.  
Right: Oksana and Grace.

hill farming using older, traditional techniques, moving from Surrey to Tywyn in 1968: *'On the first day of residence in this beautiful valley, I went up on the 'ffridd', lay on the ground, buried my nose in the mossy turf and breathed in forever... a complete rebirth experience!'*

Local poet, John Roderick Rees captured the flavour of the time in his poem 'Llygaid' which won a National Eisteddfod Crown in 1984. He describes the need for a new way of living in the country and an acceptance of the changes: *'Better a stranger's vanity than empty green ness'*. His poem inspired many of the initial thoughts behind the 'Towards the West' exhibition.

So if you want to indulge in the memory of those heady days why not light a joss stick and leaf through a copy of 'Towards the West'?

Stuart Evans  
e. [museum@ceredigion.gov.uk](mailto:museum@ceredigion.gov.uk)

Copies of 'Towards the West' are available at Ceredigion Museum.



# CERDDED GYDA'R RHUFEINIAID

Sut ellir creu Ap arobryn? Mae

**Suzanna Jones** o Awdurdod Parc

Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

yn ein tywys trwy eu Hap *Cerdded*

*Gyda'r Rhufeiniaid*, a enillodd un

o wobrau *Discover Heritage* y

Gymdeithas Dehongli Treftadaeth

(AHI) yn 2015.

**R**ydych chi ym Mannau Brycheiniog yn y flwyddyn 70AC, ac mae'r Ymerawdwr Rhufeinig Fespasian wedi ailgydio yng nghonwest De Cymru i chwilio am gyfoeth mwynau sylweddol y rhanbarth. Yn flinedig ar ôl cerdded am 12 milltir, mae un o lengoedd byddin Rhufain yn cychwyn codi eu gwersyll dros nos - dinas gaerog dros dro! Roedd codi gwersyll yn grefft; byddai ffensys a phebyll palisâd (oedd yn cael eu cludo fel pecynnau fflat) yn cael eu codi, byddai ffosydd yn cael eu hagar, rhagfuriau yn cael eu tywarchu a thannau i goginio yn cael eu cynnu. Byddai angen gwneud hyn oll mewn dim ond 3 awr er mwyn gwersylla am un noson yn unig, ond gan adael eu hól ar y dirwedd am bron iawn 2000 o flynyddoedd.

Fe wnaeth *Cerdded gyda'r Rhufeiniaid*

geisio gwella'r profiad i ymwelwyr mewn dau o Henebion Cofrestredig ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog: gwersylloedd ymdeithio'r Rhufeiniaid yn Y Pigwn a chaer fechan Waun Ddu. Y nodau allweddol oedd annog ymweliadau gan gynulleidfa ehangach, sicrhau fod mynediad corfforol yn haws, a chreu profiadau mwy pleserus gan gynyddu nifer, hyd a gwerth ymweliadau.

Mae'n ystrydeb, ond yn dilyn ein 'gwarchae ffug' o'r gwersyll ymdeithio gyda Dr Gilliver, arbenigwraig yn Hanes Milwrol Rhufain ym Mhrifysgol Caerdydd, fe wnaethom ni gychwyn gweld y dirwedd trwy lygaid y Rhufeiniaid, gan ddeall y nodweddion amddiffynnol a gwerthfawrogi trefn a sgiliau byddin Rhufain. Ein nod uchelgeisiol oedd ail-greu hyn i ymwelwyr ar fynydd pellennig heb unrhyw signal ffonau symudol, gyda chyllideb gyfyngedig a heb amharu'n weledol ar y dirwedd.

Cynllun Dehongli Goresgyniad, Meddiannaeth a Gwladychiad y Rhufeiniaid yng Nghymru gan Cadw yw sylfaen deongliadol y prosiect, ac fe wnaeth hynny nodi fod y gynulleidfa darged yn cynnwys oedolion egniol (sy'n cael eu cymell gan ymarfer corff, heriau a phrofiadau yn yr awyr agored) a theluoedd sy'n hoffi crwydro (sy'n cael eu cymell gan newydd-deb, gweithgareddau ymarferol a gweithgareddau rhyngweithiol). Gan gyfeirio at fframwaith thematig Cynllun

Cadw, mae ein prosiect yn cysylltu'n thematig â'r safleoedd eraill yng Nghymru, ond mae'n adrodd yr hanesion sy'n berthnasol i'n safleoedd.

Fe wnaethom ddefnyddio Ap sydd â chyfleuster GPS (a grëwyd gan *living data* o Gaerdydd) i ymgorffori'r system llywio yn y dehongliadau sain a gweledol er mwyn sicrhau profiad integredig ar gyfer ymwelwyr. Bydd y cyfleuster llywio GPS yn tywys ymwelwyr yn ddiogel ac yn uniongyrchol at y nodweddion amddiffynnol sy'n anodd i'r sawl sydd ddim yn arbenigwr eu canfod. Er bod yr Ap wedi'i gynllunio i gael ei ddefnyddio ar y safleoedd, mae'r cynnwys ar gael yn rhithwir ar y wefan, neu trwy ddefnyddio'r Ap oddi ar y safleoedd. Prif anfantais yr Ap yw bod rhaid i ymwelwyr ei lwytho i lawr cyn ymweld â'r safle oherwydd y diffyg signal ffonau symudol. Fodd bynnag, rydym ni wedi gosod panelau cyfeirio mewn safleoedd 'pot mêl' gerllaw, a phanelau dehongli yn y maes parcio ar gyfer pobl sydd ddim yn defnyddio Apiau. Mae'r cynnwys ar gael

trwy droi at y wefan [www.breconbeacons.org/romans](http://www.breconbeacons.org/romans) i alluogi ymweliadau rhithwir.


Mae'r Ap wedi'i rannu yn adrannau cyn, yn ystod ac ar ôl yr ymweliad, i ategu profiad ymwelwyr. Mae'r graffeg yn ddifyr, yn apelio at y farchnad teuluoedd egniol ac mae'n cynnwys dewis 'Gwisgwch eich Rhufeiniwr' yn cynnwys eitemau megis 'Cerbyd Rhyfel a Chleddyf' yn y rhestr wirio cyn yr ymweliad. Mae'r mapiau, sydd wedi'u creu gan FitzPatrick Woolmer, wedi'u cynllunio i helpu pobl i lywio a chyfeiradu heb fod angen sgiliau darllen mapiau OS. Mae'r dehongliad sain yn ddoniol ac nid yw'n rhagdybio fod gan ddefnyddwyr lawer o wybodaeth flaenorol am y Rhufeiniaid. Gall ymwelwyr wrando arno yn ad hoc neu fesul darn, un ar ôl y llall er mwyn addasu eu profiad o'r Rhufeiniaid. Mae'r cyfleuster llywio yn ddigon hyblyg i alluogi i ymwelwyr fentro oddi ar y llwybr os byddan nhw'n dymuno crwydro'n fwy annibynnol.

Fe wnaethom ni brofi'r Ap yn y maes wrth ei ddatblygu, a gwneud newidiadau bychan priodol cyn ei lansio yn Awst 2013.

Rydym ni'n dal i wneud ein gwerthusiad crynodol ohono ac yn casglu'r data meintiol canlynol: nifer y lawrlwythiadau a'u lleoliad, nifer yr ymweliadau â'r safleoedd gan ddefnyddio'r Ap, sawl gwaith yr edrychir ar dudalennau'r wefan a faint o amser a dreulir yn edrych ar gynnwys y wefan a'r clipiau You-Tube. Rydym ni hefyd yn arbrofi â chyfryngau cymdeithasol a Trip Advisor i gael adborth mwy ansoddol ei natur, a byddwn ni'n gweithio gyda Phrifysgol Caerdydd i wneud rhagor o ymchwiliad i brofiadau ymwelwyr yn ystod 2016.

Rydym ni'n hynod o falch o'r prosiect a enillodd categori Tirwedd y Gwobrau Discover Heritage (AHI) am ragoriaeth ym meysydd dehongli treftadaeth ddiwylliannol a naturiol ym Mhrydain ac Iwerddon. Dywedodd y beirniaid ei fod yn 'prosiect uchelgeisiol a gynlluniwyd ac a weithredwyd yn dda, ac sy'n cynnig profiad dilys a chofiadwy... ac yn dangos sut gellir gwneud defnydd da o dechnoleg symudol

Gellir llwytho'r Ap i lawr trwy droi at [www.breconbeacons.org/romans](http://www.breconbeacons.org/romans)



Mae manau penodol lle gellir defnyddio GPS yn helpu ymwelwyr i ganfod eu ffordd ar y llechwedd agored.

GPS enabled hotspots help visitors navigate on the open hill.

*Suzanna Jones yw'r Swyddog Dehongli yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.*  
e. [Suzanna.Jones@beacons-npa.gov.uk](mailto:Suzanna.Jones@beacons-npa.gov.uk)

Mae *Cerdded gyda'r Rhufeiniaid* yn rhan o Brosiect Y Rhufeiniaid yn Sir Gaerfyrddin, Prosiect Twristiaeth Treftadaeth sy'n cael cymorth gan Lywodraeth Cymru trwy Cadw, a chymorth hefyd gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop.



Mae adluniadau gyfrifiadurol yn helpu ymwelwyr i ddychmygu gwersyll ymdeithio Y Pigwn.

Computer generated reconstructions help visitors visualise Y Pigwn marching camp.

## Enillwyr Gwobrau'r AHI o Gymru

*Cerdded gyda Rhufeiniaid* oedd yr enillydd terfynol yn y categori Tirweddau sy'n cynnwys coedwigoedd, gwarchodfeydd natur, parciau a gerddi. Yr ail yn y categori hwn oedd *Gwaith Haeam Blaenafon - Ail-ddychmygu Tirwedd*, sy'n defnyddio dehongliad newydd i ail-greu awrygylch yr hen waith haeam, gan greu ymdeimlad o'r safle pan oedd gwaith yn mynd rhagddo, a'i holl wres, ei fudreddi, ei sŵn a'i uffernolrwydd godidog.

